## YNGHYLCH: DARPARU MARCIAU GWARCHOD MYNEDIAD PREIFAT

Diolch am eich cais am farciau gwarchod mynediad preifat. Yn sgil galwadau cynyddol am y ddarpariaeth hon, mae'r meini prawf canlynol yn berthnasol bellach:-

1. Defnyddir marciau bar gwyn ar gyfer safleoedd lle mae problem barhaus a lle bydd y mynediad yn cael ei rwystro'n aml.

2. Bwriedir bod y llinellau'n atal gyrwyr a fyddai'n parcio o flaen mynediad fel arall. Felly, gellir eu rhoi ar strydoedd preswyl lle mae galw mawr am leoedd parcio gan bobl nad ydynt yn breswylwyr e.e. ger siopau neu ardaloedd masnachol. Ni chânt eu defnyddio lle bydd parcio gan gymdogion yn achosi rhwystr.

3. Cânt eu gosod yn unol â'r Rheoliadau Marcio Ffyrdd gan ddefnyddio paent gwyn anadlewyrchol.

4. Dylid nodi nad oes statws cyfreithiol gan y marciau hyn. Fodd bynnag, os yw cerbyd yn parcio arnynt, byddai presenoldeb y llinell yn tueddu i ategu bod trosedd o rwystro mynediad yn cael ei chyflawni.

5. Bydd ymweliad safle yn cael ei gynnal ar ôl derbyn eich cais cychwynnol. Peidiwch ag anfon unrhyw daliad tra bod yr ymchwiliadau ar waith. Unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau bydd Swyddog Rheoli Traffig yn cysylltu â chi i gadarnhau a yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

6. Mae'r taliadau'n amrywio yn dibynnu ar faint y marciau ffordd sy'n ofynnol:-

**£173 + TAW (hyd at 7 metr) CYFANSWM Y GOST £237.60**
**£204 + TAW (hyd dros 7 metr) CYFANSWM Y GOST £279.60**

Unwaith y bydd y marciau wedi'u cymeradwyo, gellir gwneud taliadau naill ai drwy:--
Ffonio llinell Arianwyr Caerfyrddin i dalu gyda cherdyn debyd/credyd ar:- 01267 228686
I dalu ag Arian Parod Uniongyrchol ewch i'n Swyddfeydd Talu yn Nhŷ Elwyn, Llanelli neu Heol Spillman, Caerfyrddin

**Os ydych yn anfon siec neu archeb bost gwnewch hi'n daladwy i: Cyngor Sir Caerfyrddin gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod.**

| | |
|---|---|
| Rhif y Siec ……………………. Ticiwch os oes angen derbynneb arnoch:- ☐ | |
| Eich Cyfeiriad Cartref:- | Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau trwy e-bost i: RheoliTraffig@sirgar.gov.uk<br>Neu gallwch anfon y ffurflen trwy'r post i:-<br>Yr Adain Rheoli Traffig,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin,<br>Adran yr Amgylchedd,<br>Priffyrdd a Thrafnidiaeth,<br>Parc Myrddin, Adeilad 2<br>Waun Dew<br>Caerfyrddin<br>SA31 1HQ |
| | |
| | |
| | |
| | |
| Rhif ffôn cartref: | Eich cyfeiriad e-bost:- |
| Llofnodwyd:<br>Dyddiad:- | (enw, mewn llythrennau bras) |